

Glas

Bwletin misol

Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd

Rhif 192/Rhif 193

Chwefror/Mawrth 2024

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Llun Nia Evans
Tylluan glustig

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com



Y morthwyl sinc

Yr athro (Mr "Capten" Williams, Uwchmynydd) a'i forthwylion sinc yn y bag. Maent yn cael eu gwehyddu â brwyn (*Juncus spp.*)

Cara Cullen



Bywodd Mr Williams ym Minafon, Uwchmynydd. Saer llong oedd o yn y "Merchant Navy", ond arferai pobl ei alw'n Gaptan - ei gyfarchiad safonol oedd "Ai Ai"! Buom yn aros ym Mhwlldefaid (fferm yn ymyl Minafon) bob blwyddyn am lawer o flynyddoedd, ac yr oedd Mr Williams yn gyfaill i'r teulu. Dysgodd ni sut i wneud morthwylion sinc allan o frwyn yn y 1960au. Michael Fay

Dwi'n cofio gwneud rhain pan yn ferch ifanc - dwi'n credu mai chwaer fy mamgu ddysgodd imi un haf ar ei fferm

uwchben Llanddewibrefi. Magwyd hi ar y mynydd ar bwys comin Abergwesyn ac yna yn Nhregaron.

Jenny Henney

Mi fydda fy ewythr yn gneud y morthwylion sinc o frwyn. Dwi yn cofio Wil Min Afon yn iawn, mi fydda bob amser yn gweiddi 'ai ai' arnom ni pan oeddem yn blant yn mynd adra o ysgol Deunant. Atgofion difyr. Helen Jones

Oes atgofion gydag unrhyw un o greu rhywbeth tebyg i hyn? Tegan wedi'i wneud o frwyn gan ddynes o Gwm Rhondda oedd yn cofio chwarae gyda nhw yn ei phlentyndod a'u galw 'chwip'. Cara Cullen

Dwi yn cofio hen fodryb yn gwneud rhain. Fe ddeuai ar ei hynt i'n gweld pan oeddwn yn blentyn yn y 50/60au. Unwaith y flwyddyn ddoi hi a roedd yn dipyn o achlysur. Mae'n rhaid y byddai'n dod pan fyddai nhad wedi torri'r brwyn. Roedd fy mam yn medru eu gwneud, bosib fod o gan fy chwaer o hyd. Yng Ngwalchmai, Môn. Olwen Evans


Roedd Wili Minafon yn perthyn i Mam: hoffwn gael mwy o'i hanes. Heb weld llun ohono o'r blaen, ond wedi gweld ei fedd. Angharad Tomos

Cofio gwneud morthwylion sinc ers talwm pan yn blentyn yn Llanberis. Chris Rose Thomas

Dwi'n cofio Nain yn deud morthwl sinc am degan i fabis. Llinos Eames Jones

Rydyn ni wedi son y morthwyl sinc o'r blaen. Dyma Bert Parry o Lanberis :

Bert a'i forthwyl sinc



Trawsgrifiad o bwt allan o recordiad a wnaed o sgwrs ddiweddar gyda Bert Parry, am atgofion ei blentyndod yn Llanberis.

D: Welist ti yn Llên Natur [Rhifyn 9] am y Dinpan Foresg ...beth ddoth i dy feddwl di?

Bert: ...oni'n gneud mothwl sinc, mothwl sinc dan i'n ddeud 'de - rattle yn Saesneg-

D: Tegan plentyn ydi hwn ia?

Bert: la neu'n addurn hefyd..wedi ei wneud allan o frwyn, well efo yd wrth reswm, mae o'n gletach ac yn well...a tydwi'm yn gwbod lle ddysgish i i wneud, dwi di 'neud o ers pan o'n i'n hogyn bach...

D: Pam 'sinc' dwad?


Bert: Dwi'm yn gwbod. Tasa na frwyn yn fa'ma faswn i gwneud un rwan i chdi - eiliad faswn i yn ei wneud o....dwi'n dal i gofio sut i neud o, plethu'r brwyn, cael brwyn go dda, go hir...rhoi cerrig neu beth bynnag i mewn iddo fo...efo yd mae'n gneud swn gydol yr amser a fedri di farnisho nhw ...ond efo brwyn mae nhw'n mynd yn feddal a ma'r swn yn mynd allan ohonyn nhw ac mae nhw'n hongian ac yn mynd yn fler...

Dywedodd Bert hefyd ei bod hi'n amhosib i wneud morthwyl sinc o yd bellach gan nad yw yd yn tyfu'n ddigon tal cymaint o fridio a fu ar gyfer had ar draul coes

Os oes unrhyw un sydd am ymuno a grwp bach anffurfiol Hanes Llafar Llên Natur, cysylltwch am fanylion.



Caernarfon 1887



Caernarfon rhywbryd cyn 1887 - a chyn oes go iawn y camera. Dwy ferch a phlant, mul a phwn (sachaid) o rawn i'w werthu, neu i'w falu. Dehonglwlch fel y mynnwch....

Dyma gapsiwn y postiad gwreiddiol: *"Street scene in Caernarvon"* a painting by JULIUS HARE (1859-1932) . Jubilee gift to Queen Victoria, in 1887. *It's the High Street looking out of the walled town through the Eastgate."*

Y ddynes mewn ffedog a phenwisg wen wedi stopio ar ei ffordd i fewn i'r dref efo'i mul ar ei ffordd i gyfeiriad y Gyfnewidfa Yd (Corn Exchange - yn Stryd y Plas, allan i'r dde dros ysgwydd yr artist?) a throi am sgwrs reit hir gyda'r ddynes mewn dillad tywyll, tra bod ei phlant ifanc yn ei haros yn ddigon amyneddgar ar ymyl y lôn. Diwrnod braf o haf hwyr - poeth hyd yn oed, a barnu wrth y ffordd mae pobl yn cadw yn y cysgod, lle mae dewis ganddynt. Ac mae hi'n brynhawn gyda'r haul yn disgleirio o'r chwarter de-orllewinol. Y wraig mewn ffedog wen wedi cael taith hir o'r wlad i gyrraedd gyda'i phlant, ei mul a'r pwn gwerthfawr. Ond does ganddi ddim brys i gyrraedd y Gyfnewidfa - ddigon cynnar eto yn y prynhawn cyn amser cau. Cynhaeaf da o yd, ac ar amser - diwedd Awst neu Fedi cynnar. Morwyn un o'r mân blasdai efallai (y pwn yn rhy sylweddol i gynnyrch ceirch ei thyddyn ond mae hynny'n bosib - dewisiwch chi).

Rhywyn yn gwybod mwy am y Cyfnewidfeydd Yd - pwy oedd y gwerthwyr a phwy oedd y prynwyr? Ychydig bach o gefndir [Cyfnewidfeydd Yd Lloegr](#) yn fan hyn.

Y Stryd Fawr sydd yn y llun ar y chwith. Fe godwyd y Gyfnewidfa Yd, bresennol, sef Wal Bach heddiw, yn stryd y Plas ar ôl 1850au, pan ddaeth y rheilffyrdd i Gaernarfon. Codwyd yr adeilad gyda brics melyn o Rhiwabon. Daeth y briciau ar y trê'n o Rhiwabon a gwelwn sawl adeilad yng Nghaernarfon wedi eu codi efo'r briciau hyn. Dilynwch lwybrau y rheilffyrdd allan o Gaernarfon, ac fe welwch y brics yma mewn adeiladau yn Y Groeslon, Pontrug, Llanrug ac ati. Sylwch ar adeiladau brics eraill yng Nghymru sydd yn dilyn llwybrau rheilffyrdd. Gwelwch yma [restr o fusnesau yn gwerthu yd ac ati](#) yng Nghaernarfon o 1840 i 1967, T R Thomas yn 1967, sef Wal Bach heddiw. Ifor Williams

Os oedd yna gymaint o bobl yn gwerthu yd yn Dre, be oedd y gwahaniaeth tybed rhwng rheiny a'r Gyfnewidfa? Duncan Brown

Merched yn gweithio fel arfer tra'n cymryd gofal o'r plant hefyd a sicrhau pres i'r cartref... Cwr o ddyinion wedi ymgynull tu allan i'r dafarn... dim llawer yn newid o dan yr haul. Wedi chwyddo'r llun mae'n anodd gweld os taw merched ydy nhw. Meddwl bod nhw ar trol bach gydag un ceffyl/asyn yn tynnu (ond siap od ar hwnnw??). Shan Ashton

Sgwn i be oedd enw Wetherspoon yn yr 1850au.

Iola Hughes

Tafarn y Porth? (mae'r enw Tafarn y Porth yn dal wrth yr enw mewn llythrennau bach). Os tafarn, dwi'm yn ama mai enw Saesneg fyddai arni yr adeg honno (fel sydd ar dafarndai eraill y Dre). DB

Enw gwneud yw Tafarn y Porth gan WS. Tesco oedd yno cyn WS, ers y 1960ai cynnar. Rhaid edrych i weld pwy oedd yno dros y blynyddoedd. Dyma [restr o siopau yn Eastgate St, Caernarfon](#), ond dim rhifau iddynt, 5-9 yw rhif WS heddiw. Ifor Williams

Oedd hi yn dafarn yr adeg hynny? Cyn Tesco bach roedd o'n adeilad hardd yn enwedig tu mewn. Grisïau hardd yn y canol yn mynd i'r ail lawr. Siop ddillad yn bennaf sef Hammers yn y 1940au beth bynnag. A rhan yn siop pôn, lle medrai pobol fynd â nwyddau yno a chael arian parod amdanynt. Iola Hughes







Dwin cofio y Tesco, mynd efo mam a dad, cael bocsus cardboard o'r siop, a iwsho nhw fel sledge a mynd lawr y banc gwair dros ffor' i dafarn Tan y Bont tra rodde nhw yn siopa. Dyddia da! Iolo Hughes

Roedd [yr arlunydd](#) yn byw ym Mhlas Mawr, Conwy

Diddorol dros ben. I feddwl fod y Porth Mawr urddasol wedi ei ddymchwel o fewn cof llawer ohonom. Gwarthus! Margaret Roberts




Cofnodion o Fwyd Glas y Dorlan

Gyda dadansoddiad syml o fwydydd brenin yr afon: Crothelli yw'r prif fwyd yn ôl eich lluniau



Glas y dorlan [a'i brae], ardal Prestatyn neu ddoctor coch? Eifion

Prae Glas y dorlan



Derbyn Glas, bob mis



Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:
bwletinglas.llennatur@gmail.com

Arwydd y Tarw



Oes rhywun yn gwybod beth yw 'cysgu yn arwydd y tarw' a 'chysgu mewn Tŷ Cyfrinachol'?

“Yn bwrw Cawodydd trymion yn y boreu. Fi yn mynd i Beaumaris y boreu. Yn gorfod dwad yn fy ôl i Gaernarfon i ymofyn Ellin a Betsan. Yn Beaumaris yn fy ôl erbyn saith o'r gloch y Prydnhawn. Fi yn cysgu yn arwydd y Tarw ef Mr. Wm. Jones Tyddyn Elen hwythau yn cysgu mewn Tŷ Cyfrinachol.”

Cofnod o Ddyddiadur Owen Prenteg Awst 1820

Tybiais (fel sawl un arall prysuraf ddweud!) mai 'cysgu dan y ser' oedd hwn, ond pam dan arwydd Cytser y Tarw (*Taurus*)?

Llun trwy law Keith O'Brien



Buan y cawsom ein cywiro....!

Arwydd = *sign*.

Yn Niwbwrch arferai fod sawl tafarn er enghraifft Sign Delyn, Seign Hare (sgwarnog).

Arwydd y Tarw = *The Bull* (tafarn, gwesty)

Dyddiadur Samuel Pepys yn llawn o gyfeiriadau at "*the sign of...*"

Tecwyn Owen

Yn ddi-ddorol, a digri mewn ffordd, ma rhywun yn llêd ddiweddar yn meddwl fod nhw'n Cymreigio Sein Delyn a newid yr enw i Sain Delyn!

John Pierce Jones

Ie, 'dan y seins' yn ddywediad am rhywun byth a hefyd mewn tai tafarnau (De Ddwyrain Ceredigion o leia)

Gwyn Jones

Cofier mai 'arwydd' nid 'sein' ddar'uo OE ddefnyddio...

Golygydd

Tafarn y 'Bull' - llun tarw fel arwydd arni? Arthur Griffiths

Yn bendant, y mae tafarn/gwesty ynghanol Biwmares o'r enw "The Bull". A thybed a yw "tŷ cyfrinachol" yn "dy preifat"? (A hynny'n fwy parchus i ddynes, o bosibl...)

Dafydd Morris

Ia, cysgu mewn tafarn o'r enw'r Tarw. Tafarn a fyddai'n cael ei adnabod gan arwydd tu allan. Mae hyn yn hen ymarfer ac yn ymddangos yn y Lord of the Rings hefyd, os dwi'n cofio, rhywbeth fel "at the sign of the Prancing Pony..."

H.P. Richards

Er fod llawer o hen dafarn dai yn Niwbwrch yn cael eu galw wrth yr hen arferiad (Seisnig) o ddefnyddio "Sein" cyn enw'r dafarn (ee: Sein Fawr, Sein Llong), hyn wedi dechrau ar ôl sefydlu Bwrdeisdref yno, llawer o filwyr Seisnig yno yn nechra'r newid y fasiwn. Yn Saesneg *Sign of the Eagle*, neu *Sign of the Lion* etc. - parodd hyn yn Lloegr hyd y 18G

"Tâd llo bâch, uwchben lle bwf"

Twm o'r Nant

Tybed oedd Owen Edwards yn gorbarchuso ei Gymraeg ei hun trwy ddweud "Arwydd y Tarw"?

Golygydd

Falle na toedd dim enw ond llun o ben tarw; "*The sign of the Bull*" Y Rhufeiniaid ddechreuodd drwy roi cylch o rawnwin tu allan i'r drws fel arwydd y cewch brynnu gwin yn y tŷ, felly daeth yr enw cyfarwydd The Bush. Enw fy nhy i yn Niwbwrch ydi Tafarn Tusw a dyna glywis i ar hyd fy mywyd. Ond mae wedi ei newid i Dafarn Tywysog rhyw cant a hanner o flynnnyddoedd yn ol digwyddodd hyn, ond. rwyf wedi gweld enwau hyn yn nodi Tafarn Tusw.

JPJ

Ac yn gwneud synnwyr mewn cymdeithas lled anlythrennog?

Golygydd

Y Cyfflog Famol

Wedi bod yn pori trwy hen gopis o Glas, tra bod y tywydd mor wael, ac wedi dod ar draws yr erthygl* am y cyfflog ar darnau pres Gwyddelig. Mae hynny wedi f'atgoffa am y llun isod. Roedd o mewn hen lyfr adar ges i gan hen gyfaill, sydd yn anffodus wedi ein gadael ni erbyn hyn, efo erthygl am yr ymarfer honedig bod iar y cyfflog yn cario ei chywion tra'n hedfan. Gordon wedi prynu'r lyfr yn ail law, felly dim syniad am hanes y llun, na'r erthygl.

Chas Whymper yw'r enw ar y gwaelod, roedd o'n arlunydd gweddol adnabyddus oedd yn byw rhwng 1853 a 1941. Mae gan yr Amgueddfa Brydeinig gasgliad o'i waith, ac rwyf wedi cynnig hwn iddyn nhw ond heb lwyddiant, er bod y llun yn amlwg yn sgetis gwreiddiol. Janet Buckles

*Rhif 183 tudalen 7 i weld [yr erthygl](#) mae Janet yn cyfeirio ati

Trafodaeth 'cyfflogaidd' ecolegol

Cofio gweld cyfflogion yn hedfan ac yn galw weithia yn ardal Ganllwyd yn haf yn y saithdegau. "Roding" dwi'n meddwl oedd y gair Saesneg. Roedd fy nhad wedi ffeindio ambell nyth yn ardal Llanfachreth hefyd. Mae digonedd i weld ohonynt ond ymwelwyr y gaeaf ydynt bellach.

Kevin Davies

Tybed beth ydi achos y trai - mae rhywun yn cael ei demptio i feio'r holl goed conwydd ond fasa hynny ddim yn esbonio eu diflaniad llwyr? Cofnod gwerthchweil.

Golygydd

Dim yn meddwl fod y coed conwydd yn achos ir cyfflog ddiflanu yn yr haf, maent yn ei ddefnyddio fel cysgod. Mae cwmp yn ein pryfetach yn debycach gen i.

KD

...ond yr asideiddio?

Golygydd

Mewn pa ffordd ydych chi'n meddwl fasa hun yn effeithio nhw?

KD

Llai o infertebratau yn y pridd o dan y carped o nodwyddau. Llai o dyfiant planhigion i gynnal cadwyn fwyd?

Golygydd

Mae'n siwr o wneud gwahaniaeth ond allan o'r goedwig mae nhw i weld yn mynd i fwydo fwyaf yma ac mae yna ardaloedd heb newid llawer ac does dim yna chwaith. Oes rhai yn nythu yn bellach? KD

Dyma mae Pritchard ac eraill (2021) yn ei ddweud am y trai mawr yng Nghymru yn Adar Adar Cymru:

"the reasons may include recreational, disturbance, declining woodland management, and the maturing of plantations (Fuller et al. 2005, Hoodless and Hirons, 2007)."

Mae yna fai hefyd yn cael ei roi ar y cynnydd mewn cystadleuaeth gan fasantod wedi rhyddhau i'w saethu, eto yn Pritchard (2021). Credadwy iawn a gair i gall i sefyllfaoedd tebyg fel yr effeithiau o gyflwyno brithyll enfys i lynnoedd ar boblogaethau brithyll brown cynhenid.

Mwy nag un factor fel arfer ond planhigfeydd yn heneiddio yn un ohonynt nhw. Yn amlwg mae yna le i fwy o ymchwil.

Golygydd

Ei Statws nythu erbyn hyn


Dwi wedi clywed am yr iar yn cario'r cyw hefyd, stori gan Dad a Taid o Bontddu ac Abergynolwyn - oh! a "cyfflogyn" da ni'n galw nhw.

Ann James

Mae'n rhaid eu bod/y buont yn gyfarwydd a chyw cyfflog felly a'i fod yn nythu yn eu hardal. Cyfflogion gaeaf sydd ymhobman bellach - felly mae pob cofnod hanesyddol y tymor nythu yn werthfawr. Ac mae eich sylw am eich enw, cyfflogyn (bachigyn wrth gwrs) ond yn nesa peth i brawf eich bod yn gyfarwydd ar aderyn.

Golygydd

Dyma fap trist yn dangos y trai yn y niferoedd (y cylchoedd agored mawr yn dangos lle oedden mewn arolwg blaenorol ond ddim bellach. Dal i fod (ar adeg yr arolwg) yn y cylchoedd mawr llawn. Y cylchoedd bach yn golygu bod y dystiolaeth yn llai pendant.



Er diddordeb mae 'na fidio ar dudalenau [The Woodcock Network](#) neu [North York Moors Moorland Organisation](#).

Dewi Lewis

Blodyn Gŵyl Ddewi arall?

Gagea bohemica

Blodyn Gŵyl Ddewi gan Anwen Lynny Roberts



Llun gan Dr Richard Bate (@thenewgalaxy on X/Twitter)

*Our Native Species of the Month this #StDavidsDay takes us to Wales to see one of the UK's rarest plants, the Radnor lily (*Gagea bohemica*).*

This obscure Mediterranean winter flower is only found at one site in the UK: Stanner Rocks National Nature Reserve in Wales, where it was first discovered in 1965.

Radnor lily flowers from January to March, also known as the Early Star-of-Bethlehem due to its bright, star-shaped flowers.

You will struggle to find this plant alone – best to contact The Countryside Council for Wales if you want to see it!

Hyfryd iawn, trueni, ar ddydd Dewi nad ydynt yn cydnabod fod ganddo enw Cymraeg! Er fod Rhestr Cym. Edward Llwyd yn defnyddio 'seren Fethlehem gynnar' gellir dadlau fod 'lili Maesyfed' yn fwy addas, gan fod y rhan fwyaf o'r teulu 'ser Bethlehem' yn y genws *Ornithogalum*, nid *Gagea*. Mae planhigyn pwysig arall i ni Gymry, brwynddail y mynydd/lili'r Wyddfa yn yr un teulu - *Gagea* (gynt *Lloydia*) *serotina*. Mae'r enw 'lili Maesyfed' hefyd yn nodi ei bwysigrwydd i'r sir.

Iwan Roberts

Tipyn bach o hanes: pan enwyd hwn yn Gymraeg yn un o 'ser Bethlehem' roedd lili'r Wyddfa yn dal yn perthyn i'r genws *Lloydia*. Dim ond yn ddiweddarach bu'n rhaid ei newid i *Gagea serotina* (oherwydd dirgelion rheolau tacsonomeg ac efallai tystiolath newydd DNA). Penderfynwyd gyda llaw cadw 'Lloydia' fel enw llafar annffurfiol i goffáu Llwyd. Wedyn daethpwyd i sylweddoli'r cysylltiadau rhyfeddol yn amgylchiadau'r ddau blanhigyn, sef **1.** tymor cynnar, **2.** yn perthyn i'r un genws (y brwynddail?), a **3.** yn tyfu'n gyfyngedig iawn yn Nghymru yn unig (ym Mhrydain). Mae'r gwahaniaethu rhyngddynt hefyd yn ddiddorol - un yn tynnu am y Deheuon ar llall yn tynnu am

y Gogledd. Mae yna ddadl gref erbyn hyn ym marn llawer ohonom y dylid newid yr enw i LILI MAESYFED i gyferbynnu â lili'r Wyddfa a chryfhau, nid gwanhau, y stori eiconig hon

Golygydd



Mae hwn yn blodeuo yn gynnar iawn. O gymharu a Lili'r Wyddfa sydd yn blodeuo ddiwedd Mai a dechrau Mehefin, mae hon yn blodeuo ddechrau Chwefror. [Dyna un o'r rhesymau mae'n debyg pam y bu mor ddiweddar yn cae ei ddarganfod Golygydd]. Os yn cymharu a'r Tormaen Coch sydd yn cael ei ystyried y planhigyn arctig alpaidd cyntaf i flodeuo. Bu i mi weld y Tormaen Coch efo Iwan Williams ar y 24/02/2024 yn un o'i safleoedd cynharaf (er fod 'rhywun' wedi eu gweld yn eu blodau mewn safle gyfagos ar y 10ed o Chwefror). Eleni bu cyfaill yn chwilio am Lili Maesyfed ar 7 Chwefror, a dim ond un blagur i'w weld. Mae'r person yn gyfarwydd a'r safle unigryw yma ac yn arbenigwr ar dyfu planhigion prin. Llynnedd roedd 20 blodyn yn yr un lleoliad. Y farn oedd ei bod yn flwyddyn wael ofnadwy o ran blodau. Mae hyn yn gallu digwydd. Maent yn anodd eu canfod cyn iddynt flodeuo. Mi oeddwn wedi gobeithio ceisio ei weld eleni ond fe'm cynghorwyd nad oedd yn flwyddyn gwerth mynd i chwilio amdani.

Yn ddifwr iawn, mae hon ar ymyl ei ffin hinsawdd. Mae pail hon yn ddiffwrwyth ac felly dim ond trwy greu bylbiau bach oddi ar y rhiant mae hon yn ymledu. Ond wrth gwrs, mae pob planhigyn felly yn 'clone' o'i riant a mae hyn yn creu her o ran yr amrywiaeth genynnol fyddai yn cynorthwyo iddi ddygymod a newid hinsawdd. Dros filoedd o flynyddoedd mae'r safle wedi datblygu a'r planhigion yn glonau oll.

Mae'r ffaith eu bod yno o gwbl yn ddirgelwch, a'u goroesiad yn anhygoel. Ond mae'r greigle yma, 'Stanner' yn dal trysorau eraill dydi. O ran cymharu lili'r Wyddfa, mae na stori efo'r cyfnod Victorianaidd a'r ysbeilio, hanes Wil Bwts a'i debyg. Mi oedd sawl agwedd iddi a felly dwi'n meddwl fod honno yn sdori dda. Felly, mae 'na wers inni am sut i adrodd stori hyn oll er mwyn cydio yn nychymyg pobl a'u hennill i'r ymdrech gadwraethol. Mae angen rhywun craff fel Dewi Jones lawr yn fano efo dawn dweud sdori, neu fersiwn fano o 'Creigiau Geirwon.'

Dim Enw

Teithiau Cymdeithas Edward Llwyd

Y wefan a'r tudalen Facebook - un o brif weithgareddau'r Gymdeithas yw'r rhaglen gynhwysfawr o deithiau maes a gynhelir bron pob dydd Sadwrn mewn tri rhanbarth drwy Gymru: **Gogledd Dwyrain, Gwynedd a Môn, y De a'r Canolbarth.**



LLEUADAU LLAWN 2024



LLEUAD DAWEL
Ionawr 25ain



LLEUAD EIRA
Chwefror 24ain



LLEUAD WY
Mawrth 25ain



LLEUAD HADAU
Ebrill 24ain



LLEUAD FLODAU
Mai 23ain



LLEUAD GEFFYLAU
Mehfin 22ain



LLEUAD BERLYSIAU
Gorffennaf 21ain



LLEUAD LAS
Awst 19eg



LLEUAD GANU
Medi 18fed



LLEUAD FEDI
Hydref 17eg



LLEUAD GWŶR LÂL
Tachwedd 15fed



LLEUAD OER
Rhagfyr 15fed